



# Pecyn y cwisfeistr

**Yn cynnwys:**

- Sgript y cwisfeistr
- Cwestiynau ac atebion y cwis
- Syniadau hwyliog am ragor o rowndiau
- Cwestiwn datglwm

tearfund

**Croeso i becyn cwisfeistr *Noson y Cwis Mawr 2023!* Mae'n cynnwys popeth y mae arnoch ei angen i wneud gwaith y cwisfeistr yn hwyl ac yn hawdd.**

# Sgript y cwisfeistr

***Gallwch ddefnyddio'r sgript isod fel canllaw i'ch helpu i gyflwyno'r cwis. Gallwch ei darllen air am air, addasu tipyn arni – neu wneud rhywbeth hollol wahanol!***

**Croeso**

Helo a chroeso i Noson y Cwis Mawr! **[Eich enw chi yma]** ydw i. Fi yw'r cyflwynydd heno ac mae'n braf cael eich cwmni chi i gyd.

Y peth gorau am heno yw ein bod ni'n mynd i fwynhau'n hunain a helpu achos da ar yr un pryd. Rŷn ni'n gwneud hyn ochr yn ochr ag eglwysi ac unigolion ledled y Deyrnas Unedig sy'n frwd dros roi diwedd ar dlodi byd-eang. Gyda'n gilydd, rŷn ni'n codi arian ar gyfer gwaith hanfodol Tearfund, elusen Gristnogol sy'n helpu cymunedau i greu dyfodol gwell iddyn nhw eu hunain.

Ymlaen â ni at y cwis. Mae gennym ni **[nodwch faint o rowndiau rydych wedi penderfynu eu gwneud]** rownd o gwestiynau i wneud i chi grafu'ch pen – yn cwmpasu popeth o chwaraeon i fwyd a diod a hyd yn oed gathod a chŵn.

*Gofalwch enwi pynciau rhai o'r rowndiau rydych chi wedi'u dewis!*

Hefyd, mae gennym ni ffilm ysbrydoledig i'w rhannu gyda chi am waith Tearfund yn ystod y toriad hanner amser.

Reit, bant â'r cart! Ond cyn hynny, gofalwch fod gennych snacs a diodydd wrth law, eich bod yn gwybod pwy sydd yn eich tîm a'ch bod yn barod i ateb.

**Ar ôl pob rownd**

Waw, tipyn o waith crafu pen yn fan'na! Sut aeth hi? Cofiwch gyfnewid eich taflenni atebion neu eu marcio'ch hunain a gawn ni weld sut mae'n mynd.

**Yn ystod y toriad hanner amser**

Iawn! Gawn ni hoe/seibiant a chlywed oddi wrth Tearfund am y lles y bydd eich haelioni chi heno yn ei wneud. Bydd hwn yn ein hatgoffa pam rŷn ni yma heno, a pham mae'ch cyfraniadau chi mor bwysig. Felly, ymlaciwch!

**Ar ôl dangos y ffilm**

Bydd pob punt y gallwch ei rhoi yn gwneud gwahaniaeth. Gallwch gyfrannu nawr trwy fynd i'n tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangos y cod QR]** – dim ond munud y mae'n ei gymryd a bydd yr arian yn mynd yn syth i Tearfund.

*Os ydych yn gallu derbyn arian parod hefyd, soniwch am hynny yma – a chofiwch y ffurflenni Rhodd Cymorth!*

Ar ôl gwneud hynny, cewch chi stretsho'ch coesau am funud (ond neb i ddarllen y taflenni atebion ar y slei!).

*Yn ystod y toriad, cewch sôn am weithgareddau eraill sydd gennych ar y gweill.*

**Ar ôl y toriad hanner amser**

*Edrychwch ar dudalen Facebook Tearfund neu ein tudalen JustGiving, justgiving.com/campaign/bigquiz2023 i weld faint o arian a godwyd hyd yma/faint o bobl sy'n cymryd rhan.*

Nôl â ni. Gobeithio'ch bod chi wedi cael cyfle i stretsho'ch coesau a llenwi'r tanc. Ond cyn ailddechrau'r cwis, mae gen i newyddion cyffrous. Hyd yma, rŷn ni wedi codi'r swm anhygoel o **£[xxx]** yn ein cwis ni yma, a **£[xxx]** ledled y Deyrnas Unedig. Rhowch glap i chi'ch hunain am fod mor hael!

**Diwedd y cwis**

A dyna ni! Dyna ddiwedd ar y cwestiynau a cyn bo hir fe gawn ni'r canlyniadau. Gewch chi sgwrsio ymhlith eich gilydd tra byddwn ni'n gwneud y syms. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod, mae cyfle o hyd i gyfrannu er mwyn cefnogi gwaith Tearfund **[darllenwch yr URL / dangos y cod QR]**

*Adiwch y sgorau.*

Reit! Mae'r gwaith cyfrif wedi'i wneud, ac mae gennym ni enillwyr! Yn drydydd, mae **[enw'r tîm]**. Yn ail, mae **[enw'r tîm]**. A rôl ar y dryms! Yr enillwyr yma heno yw **[enw'r tîm]**! Llongyfarchiadau i'r holl dimau am wneud eu gorau.

Rŷn ni mor ddiolchgar eich bod wedi gallu dod heno. Gobeithio'ch bod chi wedi mwynhau. Diolch i'ch haelioni chi, rydyn ni wedi codi'r swm anhygoel o **£[xxx]** a gallwn ni fod yn siŵr y bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl mewn gwahanol wledydd. Os nad ydych wedi cyfrannu eto, mae amser i wneud gwahaniaeth o hyd ar ein tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangos y cod QR]**.

Tan tro nesa! Nos da!

# Cwestiynau'r Cwis



## Cwis am 2022

1. **Pwy gafodd ei enwi'n Bersonoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn y BBC yn 2022?**
   **A: Beth Mead B: Eve Muirhead C: Jessica Gadirova**
   Ateb: A: Beth Mead
2. **Ym mis Gorffennaf y llynedd, cofnodwyd y tymheredd uchaf erioed yn y Deyrnas Unedig. Beth oedd e?**
   **A: 38.3 gradd  B: 40.3 gradd  C: 42.3 gradd**
   Ateb: B: 40.3 gradd
3. **Enillodd Amy Broadhurst fedal aur ym Mhencampwriaethau Bocsio Merched y Byd ym mis Mai 2022. O ba wlad mae hi?**
   Ateb: Iwerddon
4. **Cyhoeddwyd mai'r actor Rwandaidd-Albanaidd Ncuti Gatwa fydd y prif gymeriad yng nghyfres newydd pa gyfres deledu ffuglen wyddonol?**
   Ateb: Doctor Who
5. **Pa dref o Gymru a wnaed yn ddinas ym mis Medi 2022?**
   Ateb: Wrecsam
6. **Pa ganwr pop a ryddhaodd albwm Nadolig pwrpasol am y tro cyntaf mewn bron i ddau ddegawd yn 2022?**
   Ateb: Syr Cliff Richard

## Y celfyddydau a diwylliant

1. **Pa arlunydd Prydeinig sy'n adnabyddus am arddangos siarc wedi'i gadw mewn fformaldehyd?**
   Ateb: Damian Hirst
2. **Pa ddramodydd Americanaidd ysgrifennodd y dramâu llwyfan *A Streetcar Named Desire a Cat on a Hot Tin Roof?***
   Ateb: Tennessee Williams
3. **Ym mha wlad yng ngorllewin Affrica y ganed y nofelydd Chinua Achebe?**
   Ateb: Nigeria
4. **Ym mha lyfr plant gan E. B. White mae mochyn o'r enw Wilbur?**
   Ateb: Charlotte's Web
5. **Pa ddigrifwr, actor, awdur a cherddor Prydeinig-Awstralaidd ysgrifennodd y caneuon gwreiddiol ar gyfer *Matilda the Musical?***
   Ateb: Tim Minchin
6. **Pa arlunydd a dyfeisiwr Eidalaidd o gyfnod y Dadeni a greodd y murlun *Y Swper Olaf?***
   Ateb: Leonardo da Vinci

## Cysylltiad â'r gorffennol

1. **Pa enw sy'n cysylltu darlun enwog yn y Louvre â merch Elvis Presley?**
   Ateb: Lisa (Mona Lisa a Lisa Marie Presley)
2. **Pa nodwedd ddaearyddol sy'n cysylltu lleoliad beddrod Tutankhamun ag un o'r lleoedd poethaf ar y ddaear?**
   Ateb: Dyffryn / Valley (Dyffryn y Brenhinoedd  / Valley of the Kings a Dyffryn Marwolaeth / Death Valley)
3. **Pa enw sy'n cael ei rannu gan y person cyntaf i hedfan ar ei ben ei hun ar draws Cefnfor Iwerydd a'r Athro Xavier o'r X-Men?**
   Ateb: Charles (Charles Lindbergh a Charles Xavier)
4. **Pa air sy'n cysylltu geiriau'r gân Bohemian Rhapsody â'r sawl wnaeth ddarganfod pedwar lleuad mwyaf y blaned Iau?**
   Ateb: Galileo ('Gallileo Figaro, magnifico' a Galileo Galilei)
5. **Pa enw sy'n cysylltu Prif Weinidog benywaidd cyntaf India ag arweinydd enwog arall o'r wlad honno?**
   Ateb: Gandhi (Mahātmā Gandhi ac Indira Gandhi)
6. **Pa flwyddyn sy'n cysylltu sgandal Watergate ag enw cân boblogaidd gan James Blunt?**
   Ateb: 1973

## Malu mythau byd natur


1. **Dim ond 10 y cant o'u hymennydd y mae pobl yn ei ddefnyddio – ffaith neu ffug?**
   Ateb: Ffug
2. **Mae llawer o'r asid amino "tryptoffan" mewn cig twrci ac felly mae'n gwneud i chi deimlo'n fwy cysglyd ar ôl ei fwyta na chigoedd eraill – ffaith neu ffug?**
   Ateb: Ffug
3. **Gall siarcod glywed arogl diferyn o waed filltir i ffwrdd – ffaith neu ffug?**
   Ateb: Ffaith
4. **Hadau yw'r rhan fwyaf sbeislyd o bupurau tsili – ffaith neu ffug?**
   Ateb: Ffug
5. **Mae camelod yn storio dŵr yn eu crwbi/crwmp (hump) – ffaith neu ffug?**
   Ateb: Ffug
6. **Mae ystlumod yn ddall – ffaith neu ffug?**
   Ateb: Ffug

## Baneri'r byd

1. **Pa wlad yn ne-ddwyrain Affrica sydd â llun reiffl ar ei baner i gynrychioli amddiffyn a bod ar eich gwyliadwriaeth?**
   Ateb: Mozambique
2. **Ym mha wlad arall yng ngorllewin Ewrop y cafodd y rhan fwyaf o'r baneri yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012 eu gwneud?**
   **A: Gwlad Belg B: Ffrainc C: Yr Almaen**
   Ateb: B: Ffrainc
3. **Dim ond dwy faner genedlaethol sy'n sgwâr. Baner Dinas y Fatican yw un. Pa wlad yng ngorllewin Ewrop bia'r llall?**
   Ateb: Y Swistir
4. **Mae eryr a neidr yn ymddangos ar faner pa wlad yn rhan ddeheuol Gogledd America?**
   Ateb: Mecsico
5. **Ar faner pa wlad ym Môr y Canoldir mae llun o fap o'r ynys a dwy gangen o goeden olewydd o tano?**
   Ateb: Cyprus
6. **I ba gyfeiriad mae'r ddraig yn wynebu ar faner Cymru?**
   Ateb: Chwith

## Gwybodaeth gyffredinol: beth sydd orau gennych, cathod ’ta cŵn?

1. **Pa frîd o gi yw'r mwyaf poblogaidd ym Mhrydain?**
   Ateb: Labrador (Retriever)
2. **Am faint o amser mewn diwrnod mae cathod yn cysgu ar gyfartaledd?**
   **A: 10 awr B: 15 awr C: 17 awr**
   Ateb: C: 17 awr
3. **Beth oedd enw’r ci ddaeth yn enwog am dreulio 14 mlynedd yn gwarchod bedd ei berchennog yng Nghaeredin?**
   Ateb: Greyfriars Bobby
4. **Ym mha wlad yn y byd mae'r nifer fwyaf o gathod?**
   Ateb: Unol Daleithiau America
5. **Beth oedd ar goesau'r ddau gi bach pan ddaethon nhw adre o'r coed?**
   Ateb: Blawd ac eisin
6. **Beth yw enw'r gath sydd wedi gwasanaethu fel Prif Lygotwr Swyddfa'r Cabinet yn 10 Stryd Downing ers 2011?**
   Ateb: Larry



## Bwyd a diod

1. **Pa ddiod amser-gwely sy'n cynnwys brag (malt), llaeth ac wyau, a blas coco?**
   Ateb: Ovaltine

2. **Pa fath o ffa yw ffa pob (baked beans)?**
   Ateb: Haricot

3. **Ar ôl pa adeilad enwog yn Llundain y cafodd sos HP ei enwi?**
   Ateb: Y Senedd (Houses of Parliament)

4. **Pa fath o de sy'n cael ei wneud o blanhigyn o deulu llygad y dydd?**
   Ateb: Camri (Chamomile)

5. **Mae dŵr tonig (tonic water) yn cynnwys cwinîn, sy'n cael ei ddefnyddio i drin babesiosis a pha glefyd arall?**
   Ateb: Malaria

6. **Pa siop adrannol yn Llundain sy'n honni mai nhw ddyfeisiodd y 'Scotch egg'?**
   **A: Fortnum & Mason B: Harrods C: Selfridges**
   Ateb: A: Fortnum & Mason

## Gesio'r gêmau

1. **Pe baech yn adio nifer y chwaraewyr sy'n dechrau gêm i dîm rygbi'r undeb, rygbi'r gynghrair a rygbi saith bob ochr faint o chwaraewyr fyddai hynny?**
   **A: 35 B: 37 C: 30 D: 40**
   Ateb: A: 35 (15 + 13 + 7)

2. **Ym mha gêm mae'r term 'gridiron' yn cael ei ddefnyddio?**
   **A: Pêl-droed Americanaidd B: Hoci iâ C: Badminton D: Croquet**
   Ateb: A: Pêl-droed Americanaidd

3. **Pa un o'r chwaraeon isod nad yw'n cael ei gyfrif yn un o'r 'gêmau Gwyddelig'?**
   **A: Pêl-droed Gwyddelig B: Chwarae hyrli (Hurling) C: Rownderi D: Dodgeball**
   Ateb: D: Dodgeball

4. **Yn 1930 y cynhaliwyd Cwpan y Byd, pêl-droed, am y tro cyntaf. Pwy enillodd?**
   **A: UDA B: Lloegr C: Japan D: Uruguay**
   Ateb: D: Uruguay

5. **Pa un o'r bobl hyn o fyd chwaraeon sydd heb eu gwneud yn farchog (knight) neu'n fonesig (dame)?**
   **A: Andy Murray B: Kelly Holmes C: Rory McIlroy D: Jessica Ennis-Hill**
   Ateb: C: Rory McIlroy

6. **Pa un o'r chwaraeon hyn nad oedd yn cael ei chwarae yn y Gêmau Olympaidd yn yr hen fyd a'r rhai modern?**
   **A: Paffio B: Nofio C: Taflu'r ddisgen D: Pentathlon**
   Ateb: B: Nofio

## Cwis i'r teulu (dewisol)

1. **Pa seren bop roddodd gyngerdd rhithwir ar Fortnite yn 2022?**
   **A: Taylor Swift B: Ariana Grande C: Tones and I**
   Ateb: C: Tones and I

2. **Yn y ffilm animeiddio cyfrifiadurol, *Encanto*, yn 2021, mae un o’r caneuon yn dweud nad ydyn nhw ddim yn siarad am rywun. Pwy?**
   Ateb: Bruno

3. **Beth yw enw'r pos cyflymder siâp pyramid, tebyg i giwb Rubik?**
   Ateb: Pyraminx

4. **Yn Minecraft, ofn beth sydd ar Creepers?**
   **A: Y tywyllwch B: Corynnod C: Ocelots**
   Ateb: C: Ocelots

5. **Beth yw enw'r albwm ryddhaodd Harry Styles yn 2022?**
   Ateb: *Harry’s House*

6. **Beth yw'r teganau meddal poblogaidd a enwyd yn rhannol ar ôl math o felysion meddal?**
   Ateb: Squishmallows

7. ***Diper Överlöde* yw enw llyfr rhif 17 ym mha gyfres gan yr awdur Jeff Kinney?**
   Ateb: *Diary of a Wimpy Kid*

8. ***Pa gyfres deledu ar CBBC sy'n cael ei chyflwyno gan yr efeilliaid Dr Chris a Dr Xand, a hefyd Dr Ronx sydd ddim yn perthyn iddyn nhw?***
   Ateb: *Operation Ouch*

9. **Beth yw tri gair nesaf y gân hon gan D Billions, ‘My name is Chicky...?**
   Ateb: ‘Chicky, Chicky, Chicky’


10. **Beth yw enw'r ffilm gomedi a ryddhawyd y llynedd ar Disney+ ac sy'n ddilyniant i'r ffilm Enchanted o 2007?**
    Ateb: *Disenchanted*

## Cwestiwn datglwm



**Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, sawl gwlad sydd yn Affrica? (Yr ateb agosaf sy'n ennill.)**
Ateb: 54

## Eich rownd chi yw hon!



**Eich cwis chi yw hwn a dyma'ch cyfle i fod yn ddyfeisgar a chreu eich rownd neu'ch her chi'ch hunain. Mae croeso i chi addasu'r cwis i siwtio'ch noson a'ch cynulleidfa chi. Dyma rai syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd...**

**Nodweddion lleol...** Os yw'ch timau'n dod o'r un ardal, gallech dynnu lluniau agos o ddeg atyniad lleol i weld a all y timau eu hadnabod – am un pwynt yr un. Gallwch naill ai roi rhyddid iddyn nhw ddyfalu heb roi'r enwau neu ofyn iddyn nhw baru'r lluniau ag enwau'r atyniadau.

**Enwch y creision...** Rhowch bowlenni ar bob bwrdd gyda deg gwahanol fath o greision. Yna gofynnwch i'r timau eu profi a naill ai adnabod y blas (er enghraifft, caws a nionyn, prawn cocktail, Worcester sauce) neu y math o greision (er enghraifft, Wotsits, Monster Munch, Space Raiders). Byddan nhw'n cael un pwynt am bob un maen nhw'n llwyddo i'w nabod.

**Caraoce garglo...** Mae trefnydd y cwis (chi!) yn dewis deg cân adnabyddus *(er enghraifft, Pen-blwydd Hapus, Dau Gi Bach, Yma o Hyd)* neu rywbeth ychydig yn fwy dieithr... yna'n garglo'r dôn er mwyn i'r timau geisio dyfalu'r gân.

**Galwad bywyd gwyllt...** Chwiliwch ar y rhyngrwyd am glipiau o'r gwahanol synau y mae deg o anifeiliaid yn eu gwneud a chwaraewch nhw i'ch timau. Yna, mae'n rhaid iddyn nhw ddyfalu pa anifail sy'n gwneud y gwahanol synau. Gallech roi cliwiau i'r timau e.e. 'yr aderyn talaf ond un sy'n byw heddiw' ar gyfer emiw.

**tearfund.org/quiz**
Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE, United Kingdom
+44 (0)20 3906 3906 info@tearfund.org /Tearfund

Registered office: Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE. Registered in England: 994339. A company limited by guarantee. Registered Charity No. 265464 (England & Wales) Registered Charity No. SC037624 (Scotland)
00848-(0723)

tearfund